# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 196(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

(60 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Rhaglen Cartrefi Clyd

(45 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

(30 munud)

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd

(30 munud)

## 8 Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024

(5 munud)

**NDM8510** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2024.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

(5 munud)

**NDM8511** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2024.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Seilwaith (Cymru)

(5 munud)

**NDM8506** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau o'r Bil Seilwaith (Cymru) a'r atodlenni iddo yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a) Adrannau 1–61;

b) Atodlen 1;

c) Adrannau 62 – 91;

d) Atodlen 2;

e) Adrannau 92 – 143;

f) Atodlen 3;

g) Adrannau 144 – 146;

h) Enw hir.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

(15 munud)

## 11 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) – cynnig 1

**NDM8512** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaeth yn y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), sef cymal 2, trin cyrff asesu cydymffurfiaeth etc., i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2023 a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Ceir copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) [HL] (parliament.uk) (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llythyr gan Weinidog yr Economi, 4 Mawrth 2024

## 12 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) – cynnig 2

**NDM8513** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), sef cymal 3 sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus, a chymal 4 sy'n ymwneud â dynodiadau tarddiad a dynodiadau daearyddol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2023 a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Ceir copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) [HL] (parliament.uk) (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llythyr gan Weinidog yr Economi, 4 Mawrth 2024

## 13 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

(15 munud)

**NDM8509** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Rhagfyr 2023 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Ceir copi o’r Bil ar wefan Senedd y DU:

Y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) - Biliau Seneddol - Senedd y DU (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

## 14 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod: Bil ar gyfer mwy o ddiogelwch ar drafnidiaeth gyhoeddus

(30 munud)

**NDM8460** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar gyfer mwy o ddiogelwch ar drafnidiaeth gyhoeddus.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) cyflwyno systemau ar gyfer monitro, adrodd ac uwchraddio goleuadau yn rheolaidd ar gyfer yr holl wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys ar fwrdd cerbydau, mewn arosfannau a gorsafoedd, ac ar strydoedd yn union o amgylch gorsafoedd trên a safleoedd bysiau mawr;

b) adolygu hyfforddiant a gynigir ar hyn o bryd ym maes diogelwch i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant trafnidiaeth, o'u rhan eu hunain ac eraill;

c) gwella gweithdrefnau adrodd presennol a datblygu systemau mwy cyson a thryloyw ar gyfer adrodd a chofnodi achosion o gam-drin sy'n effeithio ar bobl sy'n agored i niwed ar drafnidiaeth gyhoeddus; a

d) asesu'r angen am ddyletswydd statudol ar gwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus i sicrhau bod teithwyr yn cyrraedd pen eu taith, neu fan diogel, ar ôl iddi dywyllu.

**Cefnogwyr**

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

## 15 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 13 Mawrth 2024